

Yr Eirfa Etholiadol The Electoral Glossary

Y Comisiwn Etholiadol
The Electoral Commission



Y Comisiwn Etholiadol The Electoral Commission

Cronfa o dermau etholiadol
gan y Comisiwn Etholiadol
ar ran Grŵp y Gymraeg (Is-
Grŵp y Bwrdd Rheoli
Etholiadol)

A database of electoral
terms by the Electoral
Commission on behalf of the
Welsh Language Group
(Sub-group of the Electoral
Management Board)

Rhagair

Mae'r Eirfa Etholiadol yn adnodd byw, wedi'i greu i gefnogi'r defnydd cyson a chydadd o derminoleg etholiadol yn y Gymraeg a'r Saesneg ledled Cymru. Datblygwyd yr eirfa hon gan Grŵp Cynghori Deddfwriaeth y Gymraeg dan gadeiryddiaeth Bronwen Morgan ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol yn 2018 yn wreiddiol, mae nawr wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth ac arferion etholiadol sy'n datblygu yng Nghymru. Mae'r fersiwn hon yn adeiladu ar gydweithio helaeth gydag arbenigwyr iaith, cyfieithwyr y Comisiwn Etholiadol ag eraill, ac aelodau'r gymuned etholiadol ehangach.

Gobeithiwn y bydd yr adnodd hwn yn ddefnyddiol i bawb sy'n ymwneud â gweinyddu ac ymgymryd ag etholiadau, gan alluogi cyfathrebu clir a chefnogi'r broses ddemocrataidd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Eifion Evans, Cadeirydd, Grŵp y Gymraeg (Is-Grŵp y Bwrdd Rheoli Etholiadol) a'r Athro Fonesig Elan Closs Stephens CBE, Comisiynydd Etholiadol Cymru

Chwefror 2026

Preface

The Electoral Glossary is a living resource, created to support the consistent and equal use of Welsh and English electoral terminology throughout Wales. Originally developed by the Welsh Language Legislation Advisory Group under chairmanship of Bronwen Morgan in partnership with the Electoral Commission in 2018, it has now been updated to reflect changes in legislation and evolving electoral practice in Wales. This version builds on extensive collaboration with language experts, Electoral Commission translators and others, and the wider electoral community

We hope this resource will be useful to everyone involved in the administration and delivery of elections, enabling clear communication and supporting the democratic process in both Welsh and English.

Eifion Evans, Chair, Welsh Language Group (Sub-group of the Electoral Management Board) and Professor Dame Elan Closs Stephens CBE, Electoral Commissioner Wales

February 2026

Nodiadau defnyddio'r Eirfa

Caiff y talfyriadau cyffredin canlynol eu defnyddio yn yr Eirfa hon:

- *a.* ansoddair
- *b.* benywaidd
- *be.* berf
- *g.* gwrywaidd

Cwblhawyd y gwiriadau canlynol:

- Gwiriwyd terminoleg etholiadol yn erbyn cronfa ddata derminolegol Llywodraeth Cymru, sef [TermCymru](#), gan nodi unrhyw wahaniaethau.
- Gwiriwyd terminoleg etholiadol yn erbyn [Geiriadur Prifysgol Cymru](#) a [Geiriadur yr Academi](#).
- Gwiriwyd terminoleg yn erbyn deddfwriaeth bresennol drwy ddefnyddio [adnodd deddfwriaethol](#) y Deyrnas Unedig.
- Ymgorfforwyd [Canllawiau Hunaniaeth](#) y Comisiwn Etholiadol yn unol â dyluniad diwygiedig ein gwefan.
- Cynhaliwyd gwiriadau hygyrchedd i sicrhau darllenadwyedd y ddogfen hon.
- Rhannwyd y ddogfen derfynol ymysg gweinyddwyr etholiadol a chadeirydd Grŵp y Gymraeg, sef is-grŵp o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.

Diweddariadau:

Dyddiad	Manylion
30 Mai 2018	Bronwen Morgan - Cyhoeddir yr eirfa gyda newidiadau sylweddol ers creu'r eirfa'n wreiddiol yn 2007. Nid yw union fanylion y newidiadau hyn wedi eu manylu.
Chwefror 2026	Eifion Evans ag Elan Carter - Cyhoeddir Yr Eirfa gyda newidiadau sylweddol yn unol â'r diwygiadau Seneddol yn dod i rym yng Nghymru yn 2026 a diwygiadau i ganllawiau hunaniaeth y Comisiwn Etholiadol. Nid yw union fanylion y newidiadau hyn wedi eu manylu.

Glossary usage notes

These following common abbreviations will be used in this Glossary:

- *a.* adjective
- *b.* feminine
- *be.* verb
- *g.* masculine

The following equivalence checks have been conducted:

- Checking electoral terminology against the Welsh Government's terminology data base, [TermCymru](#), and noting any differences.
- Checking electoral terminology against [Geiriadur Prifysgol Cymru](#) and [The Welsh Academy Dictionary](#).
- Checking the terminology against current legislation via the UK's [legislation resource](#).
- Incorporating The Electoral Commission's [Identity Guidelines](#) in accordance with the revised design of our website.
- Carrying out accessibility checks to ensure readability of this document.
- The final document was shared among electoral administrators and with the Chair of the Welsh Language Group, a sub-Group of the Electoral Management Board.

Revisions:

Date	Details
30 May 2018	Bronwen Morgan - Glossary published with extensive changes to the original glossary published in 2007. Details of these changes have not been elaborated on.
February 2026	Eifion Evans and Elan Carter - Glossary published with extensive changes in accordance with the Senedd reforms coming into force in Wales in 2026 and amendments to The Electoral Commission Identity Guidelines. The exact details of these changes have not been elaborated on.

A

abandoned poll, =

abandoned community poll, pleidlais (*b*) gymunedol y rhoddwyd y gorau iddi, (*pleidleisiau cymunedol y rhoddwyd y gorau iddynt*)

abandoned election, etholiad (*g*) y rhoddwyd y gorau iddo (*etholiadau y rhoddwyd y gorau iddynt*)

abandoned referendum, refferendwm (*g*) y rhoddwyd y gorau iddo (*refferenda y rhoddwyd y gorau iddynt*)

absent vote, pleidlais (pleidleisiau) (*b*) absennol

absent voters list, rhestr (*b*) pleidleiswyr absennol, (*rhestrau pleidleiswyr absennol*)

absent voting, pleidleisio (*be*) absennol

accept (*donation*), derbyn (*be*) (*rhodd*) gweler hefyd 'receive'

accounting unit, uned (*b*) gyfrifyddu (unedau cyfrifyddu)

accredited observer, arsylwr (*g*) (arsylwyr) achrededig

acknowledgement and notice of entry in the register of electors, cydnabod (*be*) a chadarnhau (*be*) cofnod ar y gofrestr etholwyr

acknowledgement of application, cydnabod (*be*) cais

act in contravention, gweithredu'n (*be*) groes (*i*)

[Acting] Returning Officer, Swyddog(-ion) (*g*) Canlyniadau [Gweithredol]

additional assistance for voters, cymorth (*g*) ychwanegol i bleidleiswyr

address where you are registered to vote, y cyfeiriad (*g*) lle 'rydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio

adjournment of nomination proceedings in the case of riot, gohirio (*be*) gweithrediadau enwebu yn achos terfysg

adjournment of poll in case of riot, gohirio (*be*) pleidleisio oherwydd terfysg

adjudicate [in disputes], dyfarnu (*be*) [mewn anghydfodau]

admission to polling station, mynediad (*g*) i orsaf bleidleisio

after the close of poll, ar ôl i'r gorsafoedd pleidleisio gau

agent, asiant(-iaid) (*g*)

aggregation of the votes cast, crynhoi'r (*be*) pleidleisiau a roddwyd

aid and abet, helpu (*be*) ac annog (*be*)

allocation of seats by the d'Hondt method, dyrannu (*be*) seddi drwy ddull d'Hondt

allot, pennu (*be*)

allot a polling station, pennu (*be*) gorsaf bleidleisio

anonymous entry in a register, cofnod(-ion) (*g*) dienw ar gofrestr

anonymous registration, cofrestriad (*g*) dienw

[application(s) to] renew registration as an overseas elector, [cais (ceisiadau) (*g*) i] adnewyddu cofrestriad fel etholwr tramor

application to vote by post, cais (ceisiadau) (*g*) am bleidlais drwy'r post

application to vote by post as proxy, cais (ceisiadau) (*g*) i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy

application to vote by proxy, cais (ceisiadau) (*g*) am bleidlais drwy ddirprwy

apply for a postal vote, gwneud (*be*) cais i bleidleisio drwy'r post

apply for a postal proxy vote, gwneud (*be*) cais i bleidleisio drwy'r post fel dirprwy drwy'r post

apply for a proxy vote, gwneud (*be*) cais i bleidleisio drwy ddirprwy

appoint as proxy, penodi'n (*be*) ddirprwy

appointment [to an office or post etc], penodiad (*g*) (-au) [i swyddfa neu swydd ac ati]

armed forces personel, staff (*g*) y lluoedd arfog

assent to a nomination, cydsynio (*be*) ag enwebiad

assentor, cydsyniwr (*g*) (cydsynwyr)

assistance with voting for disabled voters, cymorth (*g*) gyda phleidleisio i bleidleiswyr anabl

Association of Electoral Administrators Wales Branch, Cangen (*b*) Cymru Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol

at a particular election, mewn etholiad penodol

at all elections, ym mhob etholiad

attend a polling station, mynd (*be*) i orsaf bleidleisio

attendance at the count, bod (*be*) yn bresennol yn y cyfrif

attest an application, ardystio (*be*) cais

attestation, ardystio (*be*)

attribution rule, rheol(-au) (*b*) priodoli

audio and tactile voting device, dyfais (*b*) bleidleisio sain a chyffyrddol

auditor's report, adroddiad(-au) (*g*) archwiliwr

authorised officer, swyddog(-ion) (*g*) awdurdodedig

authorised participant, cyfranogwr (*g*) (cyfranogwyr) awdurdodedig

available for inspection [with feminine and plural nouns], ar gael i'w harchwilio (*b*)

available for inspection [with singular masculine nouns], ar gael i'w archwilio (*g*)

B

ballot box, blwch (blychau) (*g*) pleidleisio

ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio

ballot paper accounts, cyfrifon y papurau pleidleisio

ballot paper design, dyluniad (*g*) y papur pleidleisio

ballot paper envelope, amlen (*b*) y papur pleidleisio (amlenni'r papurau pleidleisio)

ballot papers, forms, signs and envelopes, papurau pleidleisio, ffurflenni, arwyddion ac amlenni

[ballot] the ballot, [pleidlais] y bleidlais (*b*)

bankruptcy restrictions order, gorchymyn (*g*) cyfyngu methdaliad (gorchmynion cyfyngu methdaliad)

batch, swp (*g*) (sypiau)

before the close of poll, cyn i'r gorsafoedd pleidleisio gau

before you vote on her behalf, cyn i chi bleidleisio ar ei rhan

before you vote on his behalf, cyn i chi bleidleisio ar ei ran

building society, cymdeithas(-au) (*b*) adeiladu

birth certificate, tystysgrif(-au) (*b*) geni

breach of [a section of an Act], mynd yn groes i (*be*) [adran o Ddeddf]

breach of official duty, tor-ddyletswydd (*g*) swyddogol

British citizen, dinesydd (dinasyddion) (*g*) Prydeinig

British Council employee, aelod(-au) (*g*) o staff y British Council

by-election, is-etholiad(-au) (*g*)

by virtue of, yn rhinwedd

C

Cabinet office, Swyddfa'r (b) Cabinet

campaign expenditure, gwariant (g) ar [yr] ymgyrch

candidate, ymgeisydd (g) (ymgeiswyr)

candidate at the election, ymgeisydd (g) (ymgeiswyr) yn yr etholiad

candidate spending, gwariant (g) ymgeisydd (gweler hefyd "campaign expenditure")

candidate statement, datganiad (g) yr ymgeisydd

candidates nominated, ymgeiswyr a enwebwyd

candidature, ymgeisyddiaeth (b) (-au)

canvass data match, paru (be) data canfasio

canvasser, canfasiwr (g) (canfaswyr)

canvassing, canfasio (be)

carrying on a business, cynnal (be) busnes

case tribunal, tribiwnlys(-oedd) (g) achos

cast a vote, bwrw (be) pleidlais

casual vacancy, sedd (b) wag (seddau gweigion) achlysurol

casual vacancy election, etholiad (g) sedd wag achlysurol (etholiadau seddau gweigion achlysurol)

cease to be in force, peidio (be) â bod mewn grym

cease to stand nominated, peidio (be) â bod ag enwebiad

certificate as to employment on duty, tystysgrif(-au) (b) cyflogaeth ar ddyletswydd

certificate of an entry in the register of electors, tystysgrif (b) o gofnod ar y gofrestr etholwyr (tystysgrifau o gofnodion ar y gofrestr etholwyr)

certificate of employment, tystysgrif(-au) (b) cyflogaeth

certificate of naturalisation, tystysgrif(-au) (b) dinasyddio

certification, ardystiadau (g)

certify, ardystio (be)

challenge election result, herio (*be*) canlyniad etholiad

challenge the identity of a voter, herio (*be*) pwy yw pleidleisiwr / pleidleiswraig

Christian Science practitioner, ymarferydd (ymarferwyr) (*g*) yn Eglwys Grist Wyddonydd

citizenship, dinasyddiaeth (*b*)

civil partner, partner(-iaid) (*g*) sifil

clerk, clerc(-od) (*g*)

close of poll, diwedd (*g*) y [cyfnod] pleidleisio

closed proportional list system, system (*b*) rhestr gyfrannol gaeedig

coalition, clymblaid (clymbleidiau) (*b*)

coloured ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio lliw

combination of polls, cyfuno (*be*) etholiadau

combined authority area, ardal (*b*) awdurdod gyfun (ardaloedd awdurdodau cyfun)

combined poll, etholiad(-au) (*g*) cyfun

commencement of poll, dechrau'r (*g*) [cyfnod] pleidleisio

commercial discount, gostyngiad(-au) (*g*) masnachol

committed supporter, cefnogwr (cefnogwyr) (*g*) ymroddedig

commonly used names, enwau a ddefnyddir yn gyffredin

Commonwealth citizen, dinesydd (*g*) y Gymanwlad

community, cymuned(-au) (*b*)

community council, cyngor (cyngorau) (*g*) cymuned

community councillor, cynghorydd (cynghorwyr) (*g*) cymuned

compactor, crynodiadur(-on) (*g*)

companion, cydymaith (cymdeithion) (*g*)

compensating error, gwall(-au) (*g*) cywirol

complete a form, llenwi (*be*) ffurflen

complete and correct return, cofnod(-ion) (*g*) cyflawn a chywir

completion of nomination papers, llenwi (*be*) papurau enwebu

conduct of an election, trefn (*b*) cynnal etholiad

connected transactions, trafodion cysylltiedig

convergence, cydgyfeirio (*be*)

consent, cydsyniad(-au) (*g*)

consent to [something], cydsynio (*be*) â [rhywbeth]

consent in writing, cydsyniad(-au) (*g*) ysgrifenedig

consent to nomination, cydsynio (*be*) ag enwebiad

constable on duty, cwnstabl(-iaid) (*g*) ar ddyletswydd

constituency, etholaeth(-au) (*b*)

constituency returning officer, swyddog (*g*) canlyniadau'r etholaeth (swyddogion canlyniadau'r etholaethau)

contested election, etholiad(-au) (*g*) a ymleddir

continue to stand nominated, parhau (*be*) i fod ag enwebiad

controlled expenditure, gwariant (*g*) a reolir

control sheet, taflen (*b*) reoli (taflenni rheoli)

controlled transaction, trafodyn (*g*) a reoleiddir (trafodion a reoleiddir)

convey results of count, trosglwyddo (*be*) canlyniadau'r cyfrif

corresponding number list, rhestr(-au) (*b*) rhifau cyfatebol

corrupt practice, arfer (*b*) llwgr (arferion llwgr)

[the] count, [y] cyfrif

count agent, asiant(-iaid) (*g*) cyfrif

count centre, canolfan (*b*) gyfrif (canolfannau cyfrif)

count of ballot papers, cyfrif [berfenw] (*g*) y papurau pleidleisio

counterfoil, bonyn (bonion) (*g*)

countermand, dirymu (*be*)

countermand notice of poll, dirymu (*be*) hysbysiad etholiad

countermand of poll, dirymu (*be*) etholiad

countersign an application form, cydlofnodi (*be*) ffurflen gais

counting of votes, cyfrif (*be*) y pleidleisiau

counting table, bwrdd (byrddau) (*g*) cyfrif

county, sir(-oedd) (*b*)

county borough, bwrdeistref(-i) (*b*) sirol

county borough council, cyngor (cyngorau) (*g*) bwrdeistref sirol

county borough councillor, cynghorydd (cynghorwyr) (*g*) bwrdeistref sirol

county council, cyngor (cyngorau) (*g*) sir

county councillor, cynghorydd (cynghorwyr) (*g*) sir

covering envelope, prif amlen(-ni) (*b*)

credit facility, cyfleuster(-au) (*g*) credyd

cross-boundary, trawsffiniol (*g/b*)

cross-boundary constituencies, etholaethau (*b*) trawsffiniol

crowd funding, cyllido (*be*) torfol

Crown servant, un (*g*) o weision y Goron (gweision y Goron)

crypto currency, cryptoarian (*g*)

D

date of birth, dyddiad (*g*) geni

date of poll, =

date of election , dyddiad (*g*) yr etholiad

date of referendum, dyddiad (*g*) y refferendwm

date of community poll, dyddiad (*g*) y bleidlais gymunedol

date of dissolution, dyddiad (*g*) diddymu

day fixed for the poll, y dyddiad (*g*) sydd wedi'i bennu ar gyfer y bleidlais

day of public thanksgiving or mourning, dydd (*g*) o ddiolchgarwch neu alar cyhoeddus

deadline [closing date], dyddiad(-au) (*g*) cau

death of a candidate, marwolaeth (*b*) ymgeisydd (marwolaethau ymgeiswyr)

decision as to validity of nomination paper, penderfyniad (*g*) ynglŷn â dilysrwydd papur enwebu

declarant, datganwr (datganwyr) (*g*) [*Nid "datganydd"*]

declaration by election agent as to expenses, datganiad (*g*) gan asiant etholiad ynglŷn â threuliau

declaration in support, datganiad(-au) (*g*) i ategu

declaration of expenses, datganiad(-au) (*g*) treuliau

declaration of identity [declaration of who you are], datganiad(au) (*g*) ynghylch pwy ydych (*chi*)

declaration of local connection, datganiad(-au) (*g*) o gysylltiad lleol

declaration of result, datgan (*be*) canlyniad

declare an election invalid, datgan (*be*) bod etholiad yn annilys

deem a ballot paper to be void, barnu (*be*) bod papur pleidleisio yn ddi-rym

deem [someone] to stand nominated, barnu (*be*) bod [rhywun] ag enwebiad

deemed appointment, penodiad(-au) tybiedig (*g*)

defer, gohirio (*be*)

defined period, cyfnod(-au) (*g*) penodedig

definite period, cyfnod(-au) (*g*) penodol

defray election expenses, talu (*be*) treuliau etholiad

delegated authority, awdurdod (*g*) dirprwyedig

delegation of powers, dirprwyo (*be*) pwerau

deliver nomination papers, cyflwyno (*be*) papurau enwebu

delivery [of polling cards] by hand, dosbarthu (*be*) [cardiau pleidleisio] â llaw

Democracy and Boundary Commission Cymru, Comisiwn (*g*) Democratiaeth a Ffiniau Cymru

deposit, ernes(-au) (*b*)

deputy returning officer, dirprwy swyddog(-ion) (*g*) canlyniadau

description of emblem, disgrifiad (*g*) o arwyddlun

designated lead campaigner, prif ymgyrchwr (*g*) dynodedig

designated official, swyddog(-ion) (*g*) dynodedig

the designation process, y broses (*b*) ddynodi

detect personation, canfod (*be*) cambersonadu

devolution, datganoli (*be*)

D'hondt formula, fformiwla D'Hondt (*g*)

digital accessibility, hygyrchedd (*g*) digidol

digital imprint, argraffnod (*g*) digidol

direct registration, cofrestru (*be*) uniongyrchol

disabled voter, pleidleisiwr *g* (pleidleiswyr) anabl

disallow an application to vote, gwrthod (*be*) cais am bleidlais

disapply, datgymhwysu (*be*)

discharge of functions, cyflawni (*be*) swyddogaethau

discharge of registration duties, cyflawni (*be*) dyletswyddau cofrestru

disinformation, twyllwybodaeth (*b*)

disposal of documents, cael (*be*) gwared ar ddogfennau

- disproportional representation**, cynrychiolaeth anghyfrannol (*b*)
- disputed claim**, hawliad (*g*) y mae anghydfod yn ei gylch (hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch)
- disqualification**, anghymwysiad(-au) (*g*)
- disqualified**, wedi'i anghymhwysu (*g*), (wedi'u hanghymhwysu) (*b*)
- disqualify for membership of the House of Commons**, anghymhwysu (*be*) [rhywun] rhag bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin
- disqualify from voting**, anghymwysu (*be*) [rhywun] rhag pleidleisio
- divergence**, dargyfeirio (*be*)
- dissolution of Parliament**, diddymu'r (*be*) Senedd; diddymu (*be*) Senedd y Deyrnas Unedig
- distinctive letter**, llythyren (*b*) wahaniaethol (llythrennau gwahaniaethol)
- distinguishing feature**, nodwedd(-ion) (*b*) arbennig
- document**, dogfen(-nau) (*b*)
- donation**, rhodd(-ion) (*b*)
- donation return**, ffurflen (*b*) roddion (ffurflenni rhoddion)
- donor**, rhoddwr (*g*) (rhoddwyr)
- doubtful**, amheus (*a*)
- downloadable material**, deunydd (*g*) y gellir ei lawrlwytho
- drawer**, tynnwr (*g*) (tynwyr)
- dual reporting**, adrodd (*be*) deuol
- duly elected**, wedi'i iawn ethol (wedi'u hiawn ethol)
- duress**, gorfodaeth (*b*)

E

edited register, cofrestr (*b*) olygedig (cofrestrau golygedig)

election address, anerchiad(-au) (*g*) etholiadol

election agent, asiant (*g*) etholiad (asiantiaid etholiad)

election campaign, ymgyrch(-oedd) (*gb*) etholiadol

election court, llys(-oedd) (*g*) etholiadol

election date, dyddiad (*g*) yr etholiad

election expense, treuliau etholiad

election expenses return, ffurflen(-ni) (*b*) treuliau etholiad

election material, deunydd(-iau) (*g*) etholiad

election of a member to serve in Parliament for ..., ethol aelod i wasanaethu yn [y] Senedd [y] Deyrnas Unedig] dros ..., (*be*)

election petition, deiseb(-au) (*b*) etholiadol

election process, proses(-au) (*b*) etholiadol

election result, canlyniad(-au) (*g*) etholiad

election sub-agent, is-asiant(-iaid) (*g*) etholiad

election timetable, amserlen(-ni) (*b*) etholiad

election to fill a casual vacancy, etholiad (*g*) i lenwi sedd wag achlysurol

Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024, Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024

Elections Claims Unit, Uned (*b*) Hawliadau Etholiadau

elections office, swyddfa (*b*) etholiadau (swyddfeydd etholiadau)

elective office, swydd(-i) (*b*) etholedig

elector (female) etholwraig (*b*) (etholwragedd)

elector (in general and male), etholwr *g* (etholwyr)

elector number, rhif (*g*) etholwr (rhifau etholwyr)

electoral administrator, gweinyddwr (gweinyddwyr) (*g*) etholiadau

Electoral Commission (The Electoral Commission), Comisiwn (*g*) Etholiadol (Y Comisiwn Etholiadol)

electoral district, ardal(-oedd) (*b*) etholiadol

electoral division, adran(-nau) (*b*) etholiadol

electoral fraud, twyll (*g*) etholiadol

Electoral Management Board, Bwrdd (*g*) Rheoli Etholiadol

electoral registration form, ffurflen (*b*) gofrestru etholiadol (ffurflenni cofrestru etholiadol)

Electoral Registration Officer, Swyddog(-ion) (*g*) Cofrestru Etholiadol

electronic delivery, danfoniad (*g*) electronig

electronic delivery statement, datganiad (*g*) o ddanfoniad electronig

eligible to register, cymwys i gofrestru

eligible to vote by proxy, cymwys i bleidleisio drwy ddirprwy

emblem, arwyddlun(-iau) (*g*)

emergency evacuation procedures, y gweithdrefnau ar gyfer gadael [yr] adeilad mewn argyfwng

emergency proxy vote, pleidlais(-iau) (*b*) drwy ddirprwy mewn argyfwng

enactment, deddfiad(-au) (*g*)

enter a name in the register, cofnodi (*be*) enw ar y gofrestr

[to be] entitled to vote by proxy, [bod] â hawl i bleidleisio drwy ddirprwy

envelope, amlen(-ni) (*b*), **main envelope**, prif amlen

envelope marked 'A', amlen (*b*) ac arni 'A'

envelope returned as undelivered, amlen (*b*) a ddychwelwyd heb ei danfon (amlenni a ddychwelwyd heb eu danfon)

ERO Portal (EROP), Porth (*g*) y Swyddogion Cofrestru Etholiadol

EU citizen, dinesydd (*g*) yr Undeb Ewropeaidd

European Union, Yr Undeb (*g*) Ewropeaidd

exercise the right to vote, arfer (*be*) yr hawl i bleidleisio

exit poll, arolwg(arlygon) (*g*) barn wrth i bobl adael y gorsafoedd pleidleisio

expenses, treuliau

explanatory note, nodyn (*g*) (nodiadau) esboniadol

extend voting rights, ehangu (*be*) hawliau pleidleisio

F

false information, gwybodaeth (*b*) ffug

false statement, datganiad(-iau) (*g*) ffug

fictitious person, person(-au) (*g*) dychmygol

(to) **field candidates**, (i) cyflwyno (*be*) *ymgeiswyr*

final proceedings, trefn (*b*) ar y diwedd

fine, dirwy(-on) (*b*)

First Past the Post System, System (*b*) y Cyntaf i'r Felin

focused constituency campaigning ymgyrchu (*be*) â ffocws ar etholaeth(au)

for election purposes, at ddibenion etholiadol

force violence or restraint, grym (*g*), trais (*g*) neu lestar (*g*)

forfeiture of deposit, colli / fforfedu (*be*) ernes

form of certificate, ffurf (*b*) y dystysgrif

fraudulent, twyllodrus (*a*)

franchise, etholfraint (etholfreintiau) (*b*)

free exercise of the franchise of an elector, rhyddid (*g*) i arfer etholfraint etholwr

fresh ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio newydd

friendly society, cymdeithas (*b*) gyfeillgar (cymdeithasau cyfeillgar)

full register, cofrestr (*b*) lawn (cofrestrau llawn)

G

general campaign, ymgyrch(-oedd) (*g*) cyffredinol

general election, etholiad(-au) (*g*) cyffredinol

give notice of [a Senedd election] cyhoeddi (*be*) [etholiad i'r Senedd]

go in person to a polling station, mynd (*be*) yn bersonol i orsaf bleidleisio

grant a postal vote, rhoi (*be*) pleidlais (*b*) bost

grant a waiver, caniatáu (*be*) hepgoriad

Great Britain registered party, plaid (*b*) gofrestredig (pleidiau cofrestredig) ym Mhrydain Fawr

guidance for voters, canllawiau (*g*) i bleidleiswyr

guidance manual, llawlyfr(-au) (*g*) canllawiau

H

harm, niwed (*g*)

hereby, drwy hyn

hold an election, cynnal (*be*) etholiad

holder of elective office, deiliaid (*g*) swydd etholedig (deiliaid swyddi etholedig)

home address form, ffurflen (*b*) cyfeiriad cartref

homeless person, person (*g*) diartref (pobl digartref)

hours of poll, oriau pleidleisio

House of Commons Disqualification Act, Deddf (*b*) Anghymhwysu Tŷ'r Cyffredin

household enquiry form, ffurflen (-ni) (*b*) ymholi aelwyd

hustings, hustyng (-au)

ID =

ID [defnyddir '*dogfen (b) adnabod*' mewn cyd-destunau ffurfiol]

photo ID, ID ffotograffig [defnyddir '*dogfen (b) adnabod â llun*' mewn cyd-destunau ffurfiol megis dogfennau deddfwriaethol neu ganllawiau]

voter ID, ID pleidleisiwr [defnyddir '*dogfen (b) adnabod pleidleisiwr*' mewn cyd-destunau ffurfiol megis dogfennau deddfwriaethol neu ganllawiau]

voter photo ID, ID ffotograffig pleidleisiwr [defnyddir '*dogfen (b) adnabod â llun pleidleisiwr*' mewn cyd-destunau ffurfiol megis dogfennau deddfwriaethol neu ganllawiau]

Identifier, dynodwr(-wyr) (*g*)

imprint, argraffnod(-au) (*g*)

I solemnly and sincerely declare ..., Yr wyf yn datgan yn ddifrifol ac yn ddiffuant ...

if you are entitled to vote, os oes gennych hawl i bleidleisio

illegal practices, arferion anghyfreithlon

impermissible donation, rhodd(-ion) (*b*) nas caniateir

impermissible transaction, trafodyn (*g*) nas caniateir (trafodion nas caniateir)

in contravention of (*something*), yn groes i (rywbeth)

in my presence, yn fy mhresenoldeb i, yn fy ngŵydd i

in pursuance of, yn unol â

in respect of, mewn perthynas â

inadvertently, drwy amryfusedd

individual candidate, ymgeisydd (*g*) unigol

inapplicable, anghymwys (*a*)

include a name in the register of electors, cynnwys (*be*) enw ar y gofrestr etholwyr

incur expenses, ysgwyddo (*be*) treuliau

indefinite period, cyfnod(-au) (*g*) amhenodol

identity mark, marc(-iau) (*g*) adnabod

independent candidate, ymgeisydd (ymgeiswyr) (*g*) annibynnol

individual electoral registration, cofrestru etholiadol unigol

individual nomination paper, papur (*g*) enwebu unigolyn (papurau enwebu unigolion)

induce, cymell (*be*)

inspect a nomination paper, archwilio (*be*) papur enwebu

inspection of records, archwilio (*be*) cofnodion; archwiliad(-au) (*g*) cofnodion

instructions for voting by post, cyfarwyddiadau ar gyfer pleidleisio drwy'r post

interim order, gorchymyn (*g*) interim (*gorchmynion interim*)

invalid, annilys (*a*)

issue a ballot paper, rhoi (*be*) papur pleidleisio

J

joint candidate, ymgeisydd (*g*) ar y cyd (ymgeiswyr ar y cyd)

joint campaigning, ymgyrchu (*be*) ar y cyd

judicial office, swydd (*b*) farnwrol (swyddi barnwrol)

K

knowingly and wilfully, yn ymwybodol ac yn fwriadol

L

lapse of registration, (*g*) cofrestriad wedi dod i ben

large print ballot paper, papur (*g*) pleidleisio print bras

large print reference ballot paper, copi (*g*) cyfeirio print bras o'r papur pleidleisio

large print version, fersiwn (*g*) print bras (fersiynau print bras)

leave to pay, caniatáu (*be*); caniatâd (*g*) i dalu

legal incapacity, anghymhwyster (*g*) cyfreithiol

legal tender, arian (*g*) cyfreithlon

limited liability partnership, partneriaeth(-au) (*b*) atebolrwydd cyfyngedig

limitation of election expenses, cyfyngu (*be*) ar dreuliau etholiadol

limited powers, pwerau cyfyngedig

list of proxies, rhestr(-au) (*b*) dirprwyon

local authority, awdurdod(-au) (*g*) lleol

local campaign, ymgyrch(-oedd) (*g*) lleol

local counting area, ardal (*b*) gyfrif leol, (ardaloedd cyfrif lleol)

local delegation arrangements, trefniadau dirprwyo lleol

local party fighting funds, cronfeydd ymladd y pleidiau lleol

Local Police Single Point of Contact, Pwynt (*g*) Cyswllt Unigol yr Heddlu Leol

local government area, ardal(-oedd) (*b*) llywodraeth leol

local government election, etholiad(-au) (*g*) llywodraeth leol

local government electoral area, ardal(-oedd) (*b*) etholiadol llywodraeth leol

Local Returning Officer, Swyddog(-ion) (*g*) Canlyniadau Lleol

M

maintain the secrecy of the ballot cynnal (*be*) cyfrinachedd y bleidlais

majority of votes, mwyafrif (*g*) [y] pleidleisiau

make a statement false in material particular, gwneud (*be*) datganiad sy'n anwir mewn unrhyw fanylyn perthnasol

manifesto, maniffesto(-s) (*g*)

manner of voting, dull(-au) (*g*) pleidleisio

mark, marc(-iau) (*g*)

matching up postal voting statements, paru (*be*) datganiadau pleidleisio drwy'r post

material change in circumstances, newid(-iadau) (*g*) sylweddol mewn amgylchiadau

maximum fine, y dirwy(-on) (*g*) mwyaf posibl

maximum recoverable amount, y cyfanswm (*g*) mwyaf y gellir ei adennill (y cyfansymiau mwyaf y gellir eu hadennill)

mayoral ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio maerol

mayoral election, etholiad(-au) (*g*) maerol

mayoral referendum, refferendwm (refferenda) (*g*) maerol

members' association, cymdeithas(-au) (*b*) aelodau

Member of the Senedd, Aelod (*g*) o'r Senedd

mental health patient, claf (*g*) iechyd meddwl (cleifion iechyd meddwl)

merchant seaman, masnachlongwr (masnachlongwyr) (*g*)

misinformation, camwybodaeth (*b*)

[mis and disinformation], [camwybodaeth (*b*) a thwyllwybodaeth (*b*)]

multi-member constituency, etholaeth (*b*) aml-aelod

N

name of proxy, enw'r (g) dirprwy (enwau'r dirprwyon)

National Assembly for Wales (Disqualifying Offices for Membership) Order, Gorchymyn (g) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymwyso Swyddi rhag Aelodaeth)

necessary expenses, treuliau angenrheidiol

nominate, enwebu (be)

nominating officer, swyddog(-ion) (g) enwebu

nomination, enwebiad(-au) (g)

nomination of candidates, enwebu (be) ymgeiswyr

nomination paper, papur(-au) (g) enwebu

non-commercial discount, gostyngiad(-au) (g) anfasnachol

non-party campaigner, ymgyrchydd (g) di-blaid (ymgyrchwyr di-blaid)

non-selective hustings, hustyngau annewisol

not later than the close of the poll, erbyn diwedd y (cyfnod) pleidleisio fan hwyraf

notice, hysbysiad(-au) (g)

notice in writing, hysbysiad(-au) (g) ysgrifenedig

notice of appointment as proxy, hysbysiad(-au) (g) penodi dirprwy

notice of appointment of election agent, hysbysiad(-au) (g) penodi asiant etholiad (g)

notice of disallowance of an application to vote by proxy, hysbysiad(-au) (g) o wrthod cais i bleidleisio drwy ddirprwy

notice of election, hysbysiad (g) o etholiad

notice of intention to remove a name from the register of electors, hysbysiad (g) o fwriad i dynnu enw o'r gofrestr etholwyr

notice of lapse of registration, hysbysiad (g) bod cofrestrriad wedi dod i ben

notice of poll, =

election, hysbysiad o etholiad

referendum, hysbysiad o refferendwm

community poll, hysbysiad o bleidlais gymunedol

notice of withdrawal of candidature, hysbysiad (g) o dynnu ymgeisyddiaeth yn ôl

notice requiring evidence as to age and / or nationality, hysbysiad (g) yn gofyn am dystiolaeth o oedran a chenedligrwydd / neu genedligrwydd

notice to proxy of cancellation or suspension of appointment, hysbysiad (g) i ddirprwy o ganslo neu atal dros dro ei benodiad

notification of requirement of secrecy, hysbysiad (g) o'r angen am gyfrinachedd

notional expenditure, gwariant (g) tybiannol

O

object to the nomination of a candidate, gwrthwynebu (*be*) enwebiad ymgeisydd

object to the validity of a nomination paper, gwrthwynebu (*be*) dilysrwydd papur enwebu

offence, trosedd(-au) (*g/b*)

official duty, dyletswydd(-au) (*b*) swyddogol

official mark, marc(-iau) (*g*) swyddogol

omit a name from the register of electors, hepgor (*be*) enw o'r gofrestr etholwyr

online absent vote application, ceisiadau ar-lein am bleidlais (*b*) absennol

on production and surrender of this certificate, ar yr amod ei fod/bod yn dangos ac yn ildio'r dystysgrif hon

opening of the poll, agor (*be*) y bleidlais

Open Register, y Gofrestr (*b*) Agored

ordinary election, etholiad cyffredin

overseas elector, etholwr tramor

overseas visit, ymweliad(-au) tramor

P

parliamentary constituency, etholaeth(-au) (*b*) seneddol

parliamentary election, etholiad(-au) (*g*) seneddol

parliamentary elections rules, rheolau etholiadau seneddol

parliamentary polling district, dosbarth(-iadau) (*g*) pleidleisio seneddol

participation, cyfranogiad (*g*) / cyfranogi (*be*)

particular circumstances of employment, amgylchiadau penodol o ran cyflogaeth

particulars of payments, manylion taliadau

party conference, cynhadledd (*b*) plaid (cynadleddau pleidiau)

party election broadcast, darllediad etholiadol gan blaid (darllediadau etholiadol [*y*] pleidiau)

party list, rhestr (*b*) plaid (rhestrau pleidiau)

party list candidate, ymgeisydd (*g*) ar restr plaid (ymgeiswyr ar restr plaid)

party member, aelod(-au) (*g*) o blaid

party nomination paper, papur (*g*) enwebiad plaid

party-political broadcast, darllediad(-au) (*g*) gwleidyddol

peer, arglwydd(-i) (*g*), arglwyddes(-au) (*b*)

penal institution, sefydliad(-au) (*g*) cosbi

perforate, mandyllu (*be*)

permissible donation, rhodd(-ion) (*b*) a ganiateir

permissibility check, gwirio (*g*) caniatâd

permitted participant, cyfranogwr (cyfranogwyr) (*g*) a ganiateir

personal expenses, treuliau personol

personal identifier, dynodydd(-ion) personol

personation, cambersonadu (*be*)

petty expenses, mân dreuliau

physical incapacity, analluogrwydd corfforol (*g*)

pledge card, cerdyn (cardiau) (*g*) adduned

Police Force Elected-official Adviser, Ymgynghorydd (*g*) Swyddogol
Etholedig yr Heddlu

Police involvement, cyfranogiad (*g*) yr heddlu

political activity, gweithgaredd(-au) gwleidyddol (*g*)

Political Parties, Elections and Referendums Act 2000, Deddf (*b*) Pleidiau
Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

Political Parties Panel, Panel (*g*) Pleidiau Gwleidyddol

politically restricted post, swydd(-i) (*b*) dan gyfyngiadau gwleidyddol

poll =

election, etholiad(-au) (*g*) etholiadau

referendum, refferendwm (refferenda) (*g*)

survey, arolwg (arolygon) (*g*)

vote, pleidlais (pleidleisiau) (*b*)

poll at a local government election, pleidlais (*b*) mewn etholiad llywodraeth
leol, (pleidleisiau mewn etholiad llywodraeth leol)

poll at a Senedd election, pleidlais (*b*) mewn etholiad i'r Senedd
(pleidleisiau mewn etholiad i'r Senedd)

poll card, cerdyn (cardiau) (*g*) pleidleisio

poll clerk, clerc(-od) (*g*) pleidleisio

polling agent, asiant(-iaid) (*g*) pleidleisio

polling booth, bwth (bythau) (*g*) pleidleisio

polling booth notice, hysbysiad (*g*) yn y bwth pleidleisio (hysbysiadau yn y
bwth (bythau) pleidleisio)

polling day, y diwrnod (*g*) pleidleisio

polling district, dosbarth(-iadau) (*g*) etholiadol

polling hours, oriau pleidleisio

polling place, man(-nau) (*g*) pleidleisio

polling station, gorsaf (*b*) pleidleisio (gorsafoedd pleidleisio)

polling station accessibility, hygyrchedd (*g*) gorsaf (gorsafoedd) pleidleisio

polling station layout, cynllun (*g*) gorsaf pleidleisio

polling station supplies and equipment, cyflenwadau a chyfarpar ar gyfer gorsafoedd pleidleisio

post a notice, gosod hysbysiad (*be*)

postal address, cyfeiriad(-au) (*g*) post

postal ballot box, blwch (blychau) (*g*) pleidleisio drwy'r post

postal ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio drwy'r post

postal proxy poll card, cerdyn (cardiau) (*g*) pleidleisio ar gyfer dirprwy (-on) sy'n pleidleisio drwy'r post

postal proxy vote, pleidlais (*b*) ddirprwy drwy'r post (pleidleisiau dirprwy drwy'r post)

postal proxy voter, dirprwy(-on) (*g*) sy'n pleidleisio drwy'r post

[the] postal vote, [*y*] pleidlais (*b*) bost (pleidleisiau post)

postal vote opening, achlysur (*g*) agor pleidleisiau post

postal voter, pleidleisiwr (pleidleiswyr) (*g*) post

postal voting, pleidleisio (*be*) drwy'r post

postal voting statement, datganiad(-au) (*g*) pleidleisio drwy'r post

post poll reporting, adrodd (*be*) ar ôl y bleidlais

pre-election publicity guidance, canllawiau (*b*) cyhoeddusrwydd cyn yr etholiad

pre poll reporting, adrodd (*be*) cyn y bleidlais

presiding officer, swyddog(-ion) (*g*) llywyddu

printed material, deunydd(-iau) (*g*) argraffedig

procedure on close of poll, y drefn (*b*) pan fydd y pleidleisio wedi dod i ben

procure the election of a candidate, sicrhau (*be*) y caiff ymgeisydd ei ethol

proportional representation, cynrychiolaeth (*b*) gyfrannol

proposer, cynigydd (cynigwyr) (*g*)

prorogue, addoedi

prospective candidate, darpar ymgeisydd (darpar ymgeiswyr) (*g*)

proxy, dirprwy(-on) (*g*)

proxy appointment, penodi (*g*) dirprwy (penodi dirprwyon

proxy ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio drwy ddirprwy

proxy poll card, cerdyn (cardiau) (*g*) pleidleisio ar gyfer dirprwy (-on)

proxy vote, pleidlais (pleidleisiau) (*b*) drwy ddirprwy

psephology, etholiadeg (*b*)

public meeting, cyfarfod(-ydd) cyhoeddus (*g*)

publication of notice of election, cyhoeddi (*be*) hysbysiad o etholiad

[the] public test, prawf (*g*) [y] cyhoedd

purdah, purdah

purpose test, prawf (profion) (*g*) diben

Q

qualified, cymwys (*a*)

qualified as an overseas elector, yn gymwys (*a*) fel etholwr tramor

qualified to be registered, yn gymwys (*a*) i'w (*g*) gofrestru / i'w (*b*) chofrestru (yn gymwys i'w cofrestru)

qualifying address, cyfeiriad(-au) (*g*) cymhwyso

qualifying cost, cost (*b*) sy'n gymwys (costau sy'n gymwys)

qualifying foreign citizen, dinesydd (*g*) tramor cymwys

R

recall petition, deiseb(-au) (*b*) adalw

recall petition campaigner, ymgyrchydd (ymgyrchwyr) (*g*) deiseb adalw

receipt of ballot papers, derbyn (*be*) papurau pleidleisio

receive (donation), cael (*be*) (*rhodd*) (*gweler hefyd 'accept*)

recordable gift, anrheg (*b*) y dylid ei chofnodi (anrhegion y dylid eu cofnodi)

record a vote, cofnodi (*be*) pleidlais

recount, ailgyfrif *be* / ailgyfrifiad(-au) (*g*)

Referendum campaigner, ymgyrchydd (ymgyrchwyr) (*g*) *refferendwm*

regional Senedd Member, Aelod(-au) (*g*) rhanbarthol o'r Senedd

register (as an elector), cofrestru (*be*) (fel etholwr)

register as an overseas elector, cofrestru (*be*) fel etholwr tramor

register of electors, cofrestr(-au) (*b*) etholwyr

register of political parties, cofrestr (-au) (*b*) pleidiau gwleidyddol

register of local government electors, cofrestr(-au) (*b*) etholwyr llywodraeth leol

register of recordable gifts, cofrestr(-au) o anrhegion y dylid eu cofnodi

registered as a blind person, wedi'i (*g*) gofrestru'n ddall, wedi'i (*b*) chofrestru'n ddall (wedi'u cofrestru'n ddall)

registered elector, etholwr (etholwyr) (*g*) cofrestredig

registered emblem, arwyddlun(-iau) (*g*) cofrestredig

registered nominating officer, swyddog(-ion) (*g*) enwebu cofrestredig

registered non-party campaigner, ymgyrchydd (*g*) di-blaid cofrestredig, ymgyrchwraig (*b*) ddi-blaid gofrestrredig

registered party, plaid gofrestrredig (pleidiau cofrestredig) (*b*)

registered person, person cofrestredig (*g*)

registering, cofrestru (*be*)

registration address, cyfeiriad(-au) (*g*) cofrestru

registration appeal, apêl (*b*) gofrestru (apeliadau cofrestru)

registration expenses, treuliau cofrestru

registration of a political party cofrestru (*be*) plaid wleidyddol (cofrestru pleidiau gwleidyddol)

Register of Members' Financial Interests (RMFI), Cofrestr (*b*) Buddion Ariannol Aelodau

registration threshold trothwy (*g*) cofrestru

regulated donee, derbynnydd (derbynwyr) (*g*) a reoleiddir

regulated individual, unigolyn (unigolion) (*g*) a reoleiddir

regulated organisation, sefydliad a reoleiddir

regulated period, cyfnod a reoleiddir

regulated transaction, trafodyn (trafodion) (*g*) a reoleiddir

regulatory service, gwasanaeth(-au) (*g*) rheoleiddio

'**rejected**', 'gwrthodwyd'

relevant area, ardal (*b*) berthnasol

remand prisoner, carcharor(-ion) (*g*) ar remand

remuneration, cydnabyddiaeth(-au) (*b*)

render services, darparu (*be*) gwasanaethau

renew annually, adnewyddu(*be*)'n flynyddol

Representation of the People Act, Deddf (*b*) Cynrychiolaeth y Bobl

required by law, yn unol â gofynion y gyfraith, a fynnir gan y gyfraith

requirement of secrecy, y gofynion o ran cyfrinachedd

resident (*adjectival*) in the UK, yn preswyllo yn y DU

resident (*adjectival*) overseas, yn preswyllo dramor

responsible person, person(-au) cyfrifol

return (= a form), ffurflen

return a member, ethol (*be*) aelod

return of election expenses, cofnod(-ion) (*g*) o dreuliau etholiad

Returning Officer, Swyddog(-ion) (*g*) Canlyniadau

right to attend nomination, hawl (*b*) i fod yn bresennol mewn enwebiad

rolling registration, cofrestru (*be*) parhaus

S

schedule [of an Act], atodlen(-ni) [o Ddeddf] (*b*)

schedule of reporting, amserlen(-ni) (*b*) ar gyfer adrodd

second, eilydd(-ion) (*g*)

secret ballot, pleidlais (*b*) gyfrinachol (pleidleisiau cyfrinachol)

Secret Ballot Act, 1872, Deddf (*b*) Pleidlais Gyfrinachol, 1872

selective hustings, hustyngau dewisol

Senedd and Elections (Wales) Act 2020, Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020

Senedd Cymru Election, Etholiad (*g*) Senedd Cymru

Senedd Cymru (Members and Elections) Wales Act 2024, Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024

Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025, Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

serve as a Member for ..., gwasanaethu (*be*) fel Aelod dros ...

service address, cyfeiriad(-au) (*g*) cyflwyno dogfennau

service declaration, datganiad(-au) (*g*) gwasanaeth

service details, manylion gwasanaeth

service number, rhif(-au) (*g*) gwasanaeth

service voter, pleidleisiwr (pleidleiswyr) (*g*) yn y lluoedd arfog

single point of contact, pwynt (*g*) cyswllt unigol

single transferable vote, pleidlais (*b*) sengl drosglwyddadwy

situation of polling station, lleoliad (*g*) yr orsaf bleidleisio (lleoliadau'r gorsafoedd pleidleisio)

sort ballot papers, didoli (*be*) papurau pleidleisio

spending limit terfyn(-au) (*g*) gwariant

spending return, ffurflen(-ni) (*b*) gwariant

splitting spending, gwahanu (*be*) gwariant

spoil a ballot paper, difetha (*be*) papur pleidleisio

spoil a postal ballot paper, difetha (*be*) papur pleidleisio drwy'r post

spoilt ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio a ddifethwyd, (papurau pleidleisio a ddifethwyd)

sponsor, noddwr (noddwyr) *g*

sponsorship, nawdd (*g*)

spouse, priod (*g*)

stakeholder, rhanddeiliad (*g*)

stamping instruments, offer stampio

stand nominated, bod (*be*) ag enwebiad

statement detailing the results of the verification process, datganiad (*g*) ynglŷn â chanlyniad y broses ddilysu

statement of accounts, datganiad(-au) (*g*) cyfrifon

statement of all disputed claims, datganiad (*g*) o'r holl hawliadau sy'n destun anghydfod

statement of all election expenses incurred by or on behalf of the candidate, datganiad(-au) (*g*) ynghylch yr holl gostau yr hawliwyd treuliau ar eu cyfer gan yr ymgeisydd neu ar ei ran

statement of all payments made, datganiad(-au) (*g*) ynghylch yr holl daliadau a wnaed

statement of all unpaid claims, datganiad(-au) (*g*) ynghylch yr holl hawliadau nas talwyd

statement of party membership, datganiad(-au) (*g*) o aelodaeth plaid

statement of persons nominated, datganiad(-au) (*g*) ynghylch y personau a enwebwyd

statutory declaration, datganiad(-au) statudol (*g*)

statutory provision, darpariaeth(-au) statudol (*b*)

sub-agent, is-asiant(-iaid) (*g*)

subject to a legal incapacity to vote, wedi'i anghymhwyso (*g*), wedi'i hanghymhwyso (*b*) (wedi'u hanghymhwyso rhag pleidleisio yn ôl y gyfraith)

subscribe a nomination paper, llofnodi (*be*) papur enwebu

summary conviction, collfarn (*b*) ddiannod (collfarnau diannod)

summary sheet, dalen (*b*) grynhoi (dalennau crynhoi)

summons, gwŷs (gwysion) (*b*)

T

table supervisor, goruchwyliwr (*g*) bwrdd (goruchwyliwr byrddau, goruchwylwyr byrddau)

tactile voting device, dyfais (*b*) bleidleisio gyffyrddol (dyfeisiau pleidleisio cyffyrddol)

tamper with nomination papers, ymyrryd (*be*) â phapurau enwebu

targeted spending gwariant (*g*) a dargedir

teller, rhifwr (*g*) (rhifwyr)

tendered ballot paper, papur(-au) (*g*) pleidleisio a gyflwynwyd

tendered vote, pleidlais (pleidleisiau) (*b*) a gyflwynwyd

tendered votes list, rhestr(-au) (*b*) o'r pleidleisio a gyflwynwyd

the undermentioned person, y person a rybwyllir isod

to the best of my knowledge and belief, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred

tolerance level, lefel(-au) (*b*) goddefiad

transmission and declaration of results, trosglwyddo (*be*) a chyhoeddi (*be*) canlyniadau

transport, cludiant (*g*)

treating, tretio (*be*)

turnout =

y nifer (*g*) a bleidleisiodd [sef faint o bobl a bleidleisiodd]

y ganran (*b*) a bleidleisiodd [sef y ganran o'r bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio a bleidleisiodd]

U

UK resident, preswlydd (preswylwyr) (*g*) yn y Deyrnas Unedig

uncontested election =

etholiad(-au) heb ymgeisydd – etholiad(-au) (*g*) diymgeisydd

etholiad(-au) lle nad oes rhaid cynnal pleidlais – etholiad nas ymleddir

uncontested seat,

sedd heb ymgeisydd – sedd (*b*) ddiymgeisydd (seddau diymgeisydd)

sedd lle nad oes etholiad ond y mae ymgeisydd – sedd (*b*) nas ymleddir

undue influence, dylanwad(-au) (*g*) gormodol

unincorporated association, cymdeithas(-au) (*b*) anghorfforedig

unique identifying mark, marc(-iau) (*g*) adnabod unigryw

United Kingdom [The], [Y] Deyrnas (*b*) Unedig

unknown donor, rhoddwr (rhoddwyr) (*g*) anhysbys

unpaid claim, hawliad (*g*) heb ei dalu (hawliadau heb eu talu)

unsolicited, digymell (*a*)

unsolicited material to electors, deunydd(-iau) (*g*) digymell i etholwyr

unused ballot paper, papur (*g*) pleidleisio heb ei ddefnyddio (papurau pleidleisio heb eu defnyddio)

used ballot paper, papur (*g*) pleidleisio wedi'i ddefnyddio (papurau pleidleisio wedi'u defnyddio)

V

vacancy, sedd (*b*) wag (seddau gweigion)

valid, dilys

validate, dilysu (*be*)

validity, dilysrwydd (*g*)

verification, dilysu (*be*)

verification and count, dilysu (*be*) a chyfrif (*be*)

verification and count assistant, cynorthwydd (cynorthwywyr) (*g*) dilysu a chyfrif

verification and count centre, canolfan(-nau) (*b*) dilysu a chyfrif

verification of ballot paper accounts, dilysu (*be*) cyfrifon y papurau pleidleisio

vest, breinio (*be*)

void, di-rym

void for uncertainty (a vote), di-rym oherwydd ansicrwydd [NEU "[pleidlais] ddi-rym oherwydd ansicrwydd" – sylwer ar y treigladd]

volunteer expenses, treuliau gwirfoddolwr (treuliau gwirfoddolwyr)

vote as proxy, pleidleisio (*be*) fel dirprwy

vote as proxy by post, pleidleisio (*be*) fel dirprwy drwy'r post

vote at an election, pleidleisio (*be*) mewn etholiad

vote by post, pleidleisio (*be*) drwy'r post

vote by proxy, pleidleisio (*be*) drwy ddirprwy

vote for [a candidate], pleidleisio (*be*) dros [ymgeisydd]

vote in person, pleidleisio (*be*) yn bersonol

vote unaided, pleidleisio (*be*) heb gymorth

voter, pleidleisiwr (pleidleiswyr) (*g*)

Voter Authority Certificate, Tystysgrif (*b*) Awdurdod Pleidleisiwr

vote.Wales, bwrwpleidlais.Cymru (*b*)

voting age, oedran (*g*) pleidleisio

W

waiver, hepgoriad(-au) (*g*)

waiver certificate, tystysgrif(-au) (*b*) hepgor

Wales Office, Swyddfa (*b*) Cymru

want of official mark, diffyg (*g*) marc swyddogol

Welcome to Your Vote Week, Wythnos (*b*) Croeso i Dy Bleidlais

Welsh Elections Financial Assistance Scheme, Cynllun (*g*) Cymorth Ariannol Etholiadau Cymru

Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025, Rheoliadau Cynllun (*g*) Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025

Welsh Elections Information Platform, Plattfform (*g*) Gwybodaeth Etholiadau Cymru

Welsh Elections Information Platform Regulations 2025, Rheoliadau'r (*g*) Plattfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025

Welsh Government, Llywodraeth Cymru (*b*)

white paper, papur (-au) (*g*) gwyn

withdrawal notices, hysbysiad (*g*) tynnu enw yn ôl (hysbysiadau tynnu enwau yn ôl)

withdrawal of candidate tynnu (*be*) enw ymgeisydd yn ôl (tynnu enwau ymgeiswyr yn ôl)

without due authority, heb awdurdod dyladwy

working together (referendums), cydweithio (refferenda)

writ, gwrit(-iau) (*g*)

Numerals, Rhifolion

16 and 17 year olds, unigolion 16 ac 17 mlwydd (*b*) oed